# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 23 Hydref 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/14144) yn:

http://senedd.tv/cy/14144

## 237

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 5 a 7 gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.23

Gofynnwyd cwestiynau 1-6 a 8. Atebwyd cwestiynau 2 a 6 gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Ni ofynnwyd cwestiwn 7. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.04

<u>Atebwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig</u>

James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed): Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn eu cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch eu Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023-24 sy'n cynnwys manylion ymchwiliadau Cyllid a Thollau EM i gydymffurfiaeth hanesyddol Cyfoeth Naturiol Cymru â gofynion gweithio oddi ar y gyflogres, a maint yr atebolrwydd posibl a allai fod yn ddyledus?

**Atebwyd gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**

Cefin Campbell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Llywodraeth Cymru egluro'r cymorth ariannol sydd ar gael i brifysgolion Cymru sydd mewn perygl, yn dilyn llythyr y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch at Aelodau'r Senedd ar 16 Hydref 2024?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.34

Gwnaeth **Hannah Blythyn** ddatganiad am - Gŵyl Daniel Owen (19-25 Hydref).

Gwnaeth **Sioned Williams** ddatganiad am - Camlas Castell-Nedd - cysondeb mewn cyfnod o newid.

Gwnaeth **Rhys ab Owen** ddatganiad am - 20 mlynedd o Gôr Meibion Taf.

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Cymorth i farw

Dechreuodd yr eitem am 15.39

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8656** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi nad yw'r cyfrifoldeb dros ddeddfu i ganiatáu cymorth i farw wedi ei ddatganoli i Gymru, gan ei fod ar hyn o bryd yn fater a gaiff ei lywodraethu gan gyfraith droseddol.

2. Yn nodi, pe bai cymorth i farw yn cael ei gyfreithloni, ac o ystyried ei chyfrifoldeb dros iechyd a gofal cymdeithasol, y byddai angen i Lywodraeth Cymru gael dealltwriaeth fanwl o unrhyw gynigion.

3. Yn credu y dylai oedolyn yn ei lawn bwyll, y mae ganddo gyflwr corfforol annioddefadwy na ellir ei wella ac y mae wedi nodi ei ddymuniad clir a phendant i farw, gael yr opsiwn o gymorth i farw, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu cadarn.

4. Yn nodi bod ymchwiliad diweddar gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol San Steffan wedi canfod cysylltiad rhwng cyflwyno cymorth i farw a gwelliant o ran gofal lliniarol mewn sawl awdurdodaeth.

5. Yn nodi bod y Swyddfa Economeg Iechyd wedi canfod, hyd yn oed pe baent yn cael y feddygaeth liniarol orau, y byddai o leiaf 5,000 o bobl y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr yn marw heb unrhyw ffordd effeithiol o leddfu eu poen yn eu mis olaf.

6. Yn nodi bod agweddau'r cyhoedd at roi cymorth i farw wedi newid, gyda hyd at 88% o'r cyhoedd yn ffafrio newid y gyfraith.

7. Yn nodi, o ran pobl o'r DU sy'n dioddef, bod mwy nag un yr wythnos bellach yn dewis dod â'u bywyd i ben yn un o ganolfannau diwedd oes y Swistir, a bod llawer yn rhagor a fyddai'n dewis gwneud yr un peth ond sy’n methu â fforddio'r costau uchel perthnasol, sy’n aml ymhell dros £10,000.

8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cefnogi egwyddorion cymorth i farw; a

b) cefnogi senedd San Steffan i gyflwyno deddf dosturiol o ran cymorth i farw yng Nghymru a Lloegr.

**Cyd-gyflwynwyr**

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

**Cefnogwyr**

Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Mick Antoniw (Pontypridd)

Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 9 | 26 | 54 |

## 6 Dadl ar y cyd ar adroddiadau gan Bwyllgorau – Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chyswllt Ffermio

Dechreuodd yr eitem am 17.01

**NDM8702** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd yn nodi:

1. Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Gorffennaf 2024, ac y gosodwyd ymateb iddo gan Lywodraeth Cymru ar 16 Hydref 2024;

2. Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y rhaglen Cyswllt Ffermio a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2024, ac y gosodwyd ymateb iddo gan Lywodraeth Cymru ar 16 Hydref 2024; a

3. Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Gynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Gorffennaf 2024, ac y gosodwyd ymateb iddo gan Lywodraeth Cymru ar 11 Medi 2024.

**Cyd-gyflwynwyr**

Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau - Cymdeithas heb arian parod? P-06-1335: Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Dechreuodd yr eitem am 18.31

**NDM8700** Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau, ‘Cymdeithas heb arian parod?: P-6-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod’, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2024

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Hydref 2024

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl Plaid Cymru – Cyllideb Llywodraeth y DU

Dechreuodd yr eitem am 19.01

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8701** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Yn cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) cyllideb Llywodraeth y DU sydd ar ddod; a

b) y sefyllfa cyllid cyhoeddus hynod heriol, gyda chyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol gwerth £700 miliwn yn llai mewn termau real o'i gymharu â phan gafodd ei gosod gyntaf.

2. Yn gresynu fod Llywodraeth Lafur y DU wedi gwrthod:

a) darparu unrhyw gyllid canlyniadol i Gymru o brosiect HS2;

b) datganoli Ystâd y Goron yng Nghymru i sicrhau bod elw o'i hasedau yn mynd yn syth i gyllideb Cymru; ac

c) disodli fformiwla Barnett gyda fframwaith ariannu sy'n seiliedig ar anghenion.

3. Yn gresynu at fethiant y 'bartneriaeth o bŵer' rhwng Llywodraeth Lafur Cymru a Llywodraeth Lafur y DU i sicrhau buddion diriaethol i Gymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod gofynion brys ar Lywodraeth Lafur y DU, ac i gyhoeddi'r ohebiaeth, gan ofyn i'r gyllideb gynnwys:

a) ailddosbarthu HS2 yn brosiect i Loegr yn unig;

b) ymrwymiad bod Cymru'n derbyn £4 biliwn o gyllid canlyniadol HS2, fel y mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi galw amdano;

c) ymrwymiad i ddatganoli Ystâd y Goron cyn gynted â phosibl, gydag amserlenni perthnasol;

d) ymrwymiad i ddisodli fformiwla Barnett cyn gynted â phosibl, gydag amserlenni perthnasol;

e) ymrwymiad i adfer lwfans tanwydd y gaeaf i bensiynwyr; ac

f) ymrwymiad i gael gwared ar y cap budd-dal dau blentyn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 42 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cyllideb Llywodraeth y DU sydd ar ddod.

2 Yn gresynu fod Llywodraeth Lafur y DU wedi gwrthod:

a) dileu'r toriad mewn taliadau tanwydd gaeaf, a fydd yn gweld tua 400,000 o aelwydydd yng Nghymru yn colli hyd at £300 y pen;

b) diystyru unrhyw gynnydd i gyfraniadau yswiriant gwladol;

c) sicrhau bod Cymru'n derbyn ei symiau canlyniadol o HS2;

d) ariannu'r gwaith o drydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru; ac

e) cyflwyno trefniant ariannu newydd i Gymru i ddisodli'r fformiwla Barnett hen ffasiwn.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod gofynion brys ar Lywodraeth Lafur y DU, ac i gyhoeddi'r ohebiaeth, gan ofyn i'r gyllideb gynnwys cynlluniau i:

a) dileu toriad taliadau tanwydd y gaeaf;

b) sicrhau nad oes cynnydd i gyfraniadau yswiriant gwladol;

c) galluogi Cymru i dderbyn ei chyfran deg o gyllid canlyniadol HS2;

d) trydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru; ac

e) dileu'r fformiwla Barnett hen ffasiwn a'i ddisodli â fformiwla ariannu newydd yn seiliedig ar anghenion, sy'n deg, yn dryloyw ac yn darparu ar gyfer pobl Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 10 | 29 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwyntiau 2, 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn sylweddoli bod y sefyllfa ariannol a etifeddodd Llywodraeth Lafur y DU gan Lywodraeth flaenorol y DU yn un hynod heriol.

Yn cydnabod bod ethol Llywodraeth newydd y DU yn gyfle i ailosod a gwella'r berthynas rynglywodraethol.

Yn nodi mai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb Llywodraeth y DU yn yr hydref yw:

a) cynnydd mewn gwariant adnoddau a chyfalaf uwchlaw'r lefel a bennwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU;

b) hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol;

c) rhaglen fuddsoddi ar y cyd i fynd i'r afael â diogelwch tomenni glo; a

d) ymrwymiad i ragor o drafodaethau am gyllid mewn perthynas â HS2, ac am fuddsoddi yn y seilwaith rheilffyrdd yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 20.07

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 20.12

**NDM8699** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Economi Cymru: problemau strwythurol a'u cywiro

Daeth y cyfarfod i ben am 20.39

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Tachwedd 2024**